**Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl**

Dyddiad: Dydd Mawrth 17 Hydref 2017
Amser: 08:15
Lleoliad: Ystafell Gynadledda B (Llawr Gwaelod), Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

**Yn bresennol**

Joyce Watson AC (JW)
Stephen Chapman, Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, Llywodraeth Cymru (SC)
Sukaina Kadhum, Swyddog Cymorth Atal Caethwasiaeth, Llywodraeth Cymru (SK)
Dan Michel, Ditectif Arolygydd, Heddlu De Cymru (DM)
Nici Evans, Partneriaethau a Ffocws Dinasyddion, Cyngor Caerdydd (NE)
Kim Ann Williamson, Rheolwr Cynhwysiant ac Ymgysylltu â'r Gymuned, Gwasanaeth Erlyn y Goron - Cymru (KA)
Helena Hunt, Arweinydd Tîm Polisi, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (HH)
Angelina Rodriques, Dirprwy Brif Weithredwr, BAWSO (AR)
Rachel Allen, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Swyddfa Jeff Cuthbert (RA)
Ryland Doyle, Ymchwilydd Mike Hedges AC (RD)
David Rowlands AC, Dwyrain De Cymru (DR)
Madeleine Rees (MR)
Barbara Natasegara MBE – Cyd-Brif Swyddog Gweithredol, Cymru Ddiogelach Cyf (BN)
Simon Borja, Cyfarwyddwr Datblygu Prosiect, Cymru Ddiogelach Cyf (SB)
Mutale Merrill OBE, Prif Weithredwr, BAWSO (MM)
Nitesh Patel, Swyddog Cyfathrebu Joyce Watson AC (NP)

DRAFT

**Cofnodion y Cyfarfod**

**Eitem 1 – Ymddiheuriadau**

**Eitem 2 - Ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol**

Cadarnhaodd y rhai a oedd yn bresennol ail-etholiad JW yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, heb unrhyw wrthwynebiadau, a chadarnhawyd BAWSO fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol, heb unrhyw wrthwynebiadau.

**Eitem 3 - 6**

Dechreuodd JW y cyfarfod trwy ofyn i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod gyflwyno ei hun.

Dywedodd JW y byddai'r holl randdeiliaid ac arbenigwyr yn y cyfarfod yn hanfodol o ran pennu agenda a blaenoriaethau'r grŵp yn ystod y flwyddyn i ddod.

Diolchodd JW i MR am lunio adroddiad ar Fasnachu mewn Pobl a gofynnodd am iddo gael ei rannu â'r rhai a oedd yn bresennol.

Dywedodd JW fod clod yn ddyledus i Carl Sargeant AC am yrru'r agenda atal masnachu mewn pobl yn ei blaen yng Nghymru a'r camau ategol sy'n cael eu cymryd.

Tynnodd JW sylw at broblemau'n ymwneud â'r ffaith nad oes canolbwynt ar ffurf gwefan ar waith eto, er i'r adroddiad Masnachu mewn Pobl gwreiddiol yn 2009 argymell hynny.

Dywedodd NE y dylai'r porth i'r agenda caethwasiaeth fodern fod drwy'r canolfannau diogelu aml-asiantaeth. Y pwyslais yng Nghaerdydd yw mai hwn ddylai fod y cyswllt cyntaf ynghyd a gweithio'n agos iawn gyda'r uned caethwasiaeth fodern, gyda'r cydgysylltydd rhanbarthol a'r dadansoddwr yn cwmpasu rhanbarth De Cymru.

Dywedodd NE fod y dull a ddefnyddir mewn ardaloedd lle nad oes canolfan ddiogelu aml-asiantaeth yn wahanol o bosibl. Mae'r ganolfan ddiogelu aml-asiantaeth wedi arwain at fwy o ymrwymiad gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau plant ar ôl saith mlynedd o gynnydd. Saith mlynedd yn ôl, nid oedd dim ac nid oedd cydnabyddiaeth fod hyn yn broblem. Dywedodd NE yr hoffai i ardaloedd eraill gael canolfannau tebyg ac iddynt gael eu hymgorffori yn y dull diogelu ar gyfer y tymor hir.

Dywedodd SC fod chwech o fyrddau diogelu ledled Cymru, gyda rhai de Cymru a'r Fro ymhell ar y blaen. Mae Gwent yn canolbwyntio ar ffurfio canolfan, mae gan ogledd Cymru ddwy ganolfan, ac mae gorllewin Cymru yn y broses o gael canolfan,

DRAFT

fel y mae Cwm Taf. Maen nhw ar y ffordd. Mae'r bwrdd annibynnol ar ddiogelu yn dylanwadu ar hyn. Mae chwe aelod o'r bwrdd annibynnol, ac mae pob un o'r aelodau hynny yn gofalu am bob un o'r canolfannau hynny. Mae Jan Pickles yn gofalu am ganolfan Gwent. Mae Gwent ar y blaen gan fod ganddi ganolfan plant coll. Dywedodd SC ei fod am gael rhai felly ledled Cymru, gyda Gweinidogion yn edrych ar hyn.

Dywedodd SC fod Eiriolwyr Annibynnol Masnachu mewn Plant (ICTAs) eisoes wedi dechrau. I ddechrau, gwrthododd Llywodraeth y DU i Gymru gael ICTAs. Barnardo's Cymru sy'n rhedeg y gwasanaeth ICTA. Y llynedd, yng Nghymru gyfan, dim ond 4 o blant a atgyfeiriwyd gan Awdurdodau Lleol at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM). Er 30 Ionawr 2017, pan ddechreuodd ICTA yng Nghymru, atgyfeiriwyd 30 o blant o 22 o awdurdodau lleol. Mae Caerdydd wedi atgyfeirio 17 a Wrecsam wedi atgyfeirio 9. Mae'r plant sy'n cael eu hatgyfeirio i'r NRM yn amrywio o flynyddoedd 2, 3, 5, 10 i rai yn eu harddegau. Mae Cymru'n rhan o dair ardal beilot: Manceinion Fwyaf; Hampshire ac Ynys Wyth.

Dywedodd SC fod Cymru'n mynd yn groes i'r llif - yn y ddwy ardal beilot arall, mae mwyafrif y plant yn fechgyn, ond yng Nghymru mae'r mwyafrif yn ferched. Yng Nghymru, mae'r camfanteisio am resymau rywiol fwyaf. Dywedodd SC fod KA wedi hyrwyddo hyfforddiant ledled Cymru. Mae KA yn arwain ar hyfforddiant ledled Cymru. Edrychodd uned Caethwasiaeth Fodern y Swyddfa Gartref ar yr hyfforddiant yng Nghymru a gofynnodd i KA ei hyrwyddo ar draws Cymru.

Dywedodd KA fod y peilot ICTA yn anhygoel ond dywedodd mai dim ond peilot ydyw o hyd. Dywedodd KA nad yw'r sefyllfa ymhob ardal yng Nghymru yr hyn ddylai fod o hyd o ran gwasanaethau cymdeithasol ac o ran tanddatgan eu rôl fel ymatebwyr cyntaf. Pe na bai'r systemau ICTA ar waith, ni fyddai cymaint o atgyfeiriadau ag y bu. Mae angen gwneud rhagor o waith gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'u cael i ddeall eu rôl fel ymatebwyr cyntaf. Mae'r Comisiynydd Atal Caethwasiaeth ar fin lansio ymgyrch y mis nesaf ar rôl yr ymatebydd cyntaf. Efallai fod deddfwriaeth yng Nghymru yn wahanol ond dylai Cymru gadw llygad ar hyn. Mae angen gwneud rhagor o waith ar reolau diogelu.

Dywedodd KA ei bod yn hoffi'r syniad o ganolfan lefel strategol sy'n cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron, Llywodraeth Cymru a Phlismona fel bod ganddynt ganolfan lle gall pawb gydweithio. Tynnwyd sylw at achosion ar Twitter. Yr allwedd yw sicrhau bod pawb yn gwybod beth mae'r grwpiau rhanbarthol yn ei wneud, pwy ydyn nhw a'r hyn y maen nhw'n ei olygu. Mae angen gwneud rhagor o waith ar Gyfathrebu a gweithio gyda'r Cyfryngau.

Dywedodd AR fod angen gwneud rhagor o waith ar ôl-ofal, gydag achosion o ddynion a merched yn mynd yn ddigartref a masnachwyr pobl yn manteisio arnynt. Cytunodd NE ag AR. Dywedodd NE y gall y systemau sydd ar waith ar gyfer ôl-ofal fod mor wael fel bod y bobl hyn yn agored i ail-fasnachu.

Dywedodd SC fod yr NRM yn cael ei weithredu gan y Swyddfa Gartref, gyda chyfnod o 45 diwrnod o adfer a myfyrio. Mae'r Swyddfa Gartref yn adolygu'r NRM ac mae ar fin cyhoeddi rhai newidiadau. Mae'n 45 diwrnod yn y DU, 30 diwrnod ar y cyfandir, a 60 diwrnod yn Ngweriniaeth Iwerddon: Dywedodd SC fod pwysau'n cael ei roi ar y Swyddfa Gartref i gynyddu nifer y dyddiau ar gyfer cefnogaeth.

Dywedodd DR y dylai fod diffiniad o gaethwasiaeth os ydym yn gofyn i bobl adnabod caethwasiaeth. A yw'n golygu perchnogaeth absoliwt gan rywun, ynteu a yw hefyd yn cynnwys pobl sy'n golchi ceir, gan weithio 10 awr y flwyddyn am lai na £3 yr awr?

Dywedodd SC nad oedd caethwasiaeth yn drosedd cyn 2015. Yr ydym i gyd yn defnyddio'r gair caethwasiaeth ond Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 greodd y drosedd o gaethwasiaeth a'r diffiniadau o'r hyn sydd gyfystyr â chaethwasiaeth. Yng Nghymru rydym wedi codi ymwybyddiaeth ac yn parhau i godi ymwybyddiaeth. Yn 2012, dim ond 34 o achosion a gyfeiriwyd yng Nghymru. Ar y pryd, tybiaeth yr heddlu oedd nad oedd problem gyda masnachu mewn pobl.
Ers hynny, mae KA wedi arwain o ran codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ledled Cymru. Yn 2014, hyfforddwyd dros 2,000 o bobl ar draws y wlad, 4,500 yn 2015, ac yn agos at 5,500 o bobl yn 2016. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth. Cafodd 123 o bobl eu hatgyfeirio y llynedd a'u cydnabod fel rhai sy'n dioddef o gaethwasiaeth a chawsant eu cyfeirio at yr NRM. Ar ddiwedd mis Mehefin eleni, bu 109 o atgyfeiriadau.

Dywedodd DR i'r heddlu ddwyn cyrch ar fangre yng Nghasnewydd y llynedd. Nid oedd contractau gwaith yn y lle ac roedd y gweithwyr yn ennill £3 yr awr. Ni wnaeth yr heddlu ddim oherwydd bod y bobl yn y wlad yn gyfreithlon a dyna ddiwedd ar eu rôl yn y mater. Gofynnodd DR pryd y byddai erlyniadau'n cael eu gwneud.

Dywedodd SC fod mwy o bobl yn cael eu herlyn a bod achosion yn cael eu dilyn yn awr.

Dywedodd KA fod staff o'r Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau yn ymchwilio i'r mathau hyn o achosion yn awr. Os nad eir ar drywydd erlyniadau troseddol, caiff troseddau eraill eu trosglwyddo a'u dilyn gan yr Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau.

Dywedodd DR ei fod yn gorfod gadael i fynd i gyfarfod arall a diolchodd i'r rhai a oedd yn bresennol.

Dywedodd RA ei bod yn cefnogi ymagwedd fwy integredig tuag at gaethwasiaeth fodern o ran diogelu, yn hytrach na chanolfan ar wahân.

Dywedodd JW fod y pwyslais yn y cyfraniadau ar waith cydlynol rhanbarthol ac ôl-ofal.

Diolchodd MR i KA am ddarparu hyfforddiant ar gyfer adnabod y peryglon o ran masnachu mewn pobl ar gampysau Prifysgolion.

Dywedodd NE nad oes fawr ddim adnoddau ar gyfer hyfforddiant aml-asiantaeth penodol nac ar gyfer person i weithio'n llawn amser, ac ar hyn o bryd maent yn dibynnu ar ewyllys da. Mae'r sefyllfa yr un fath o ran diffyg adnoddau ar gyfer cymorth parhaus i ddioddefwyr. O ystyried yr ychydig iawn o arian sydd ar gael, mae'r hyn a gyflawnwyd yng Nghymru yn hynod.

Dywedodd HH fod angen atgoffa'r ymatebwyr cyntaf o'u dyletswyddau, yn ogystal â'u hatgoffa o gaffael a'r cod ymarfer.

Dywedodd JW y bydd digwyddiad yn cael ei gynnal ym mis Ionawr, a bod cyfarfod

DRAFT

diweddar â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Jeff Cuthbert, ar gaffael moesegol. Dywedodd JW fod yn rhaid i bobl gymryd cyfrifoldeb personol o ran caffael a chadw llygad ar y sefyllfa. Dywedodd JW iddi fynd i olchi car yn rhywle nad oedd gan y staff ddillad dwrglos. Mae dyletswydd gofal ar awdurdodau lleol i fonitro arferion cwmnïau y maent yn eu trwyddedu.

Dywedodd BN fod angen i'r ymatebwyr cyntaf gael trefn ar bethau.

Dywedodd SC ei bod yn bwysig sefydlu pwy yw'r ymatebwyr cyntaf yn y lle cyntaf. Adran Fisâu a Mewnfudo’r Swyddfa Gartref a Llu’r Ffiniau, yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol mewn Awdurdodau Lleol a rhai cyrff anllywodraethol (BAWSO a Llwybrau Newydd). Y llynedd, atgyfeiriodd Awdurdodau Lleol bedwar o bobl, atgyfeiriodd cyrff anllywodraethol 31 o bobl, atgyfeiriodd yr heddlu 24 o bobl ac ymdriniodd y Swyddfa Gartref â 64 ar y ffin neu fel achosion lloches. Mae'r cyrff anllywodraethol yn gweithio'n dda. Mae'r NRM yn wyth tudalen o hyd.

Dywedodd KA fod llythyr wedi mynd allan at yr holl ymatebwyr cyntaf yn tynnu sylw at eu dyletswyddau dan ddeddfwriaeth. Mae'r Swyddfa Gartref wedi gofyn am i'r llythyr hwn gael ei ddal yn ôl ac oherwydd yr adolygiad parhaus o’r NRM. Hwn fydd y darn nesaf o waith.

Gofynnodd NP i KA am godi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio technolegau newydd. Gofynnodd NP a ddefnyddir adnoddau penodol i dalu am hysbysebu ar Facebook. Amlinellodd NP gostau a chyrhaeddiad nodweddiadol hysbysebu ar Facebook. Dylid defnyddio technolegau newydd ochr yn ochr â mathau traddodiadol o farchnata, fel llythyrau.

Dywedodd KA fod angen i rywun reoli'r math hwn o farchnata. Dywedodd NE y byddai angen cyllideb weithredol ar gyfer hyn.

Pwysleisiodd NP yr angen am adnoddau cyfun rhwng yr holl sefydliadau a'r cyrff anllywodraethol. Gellid cyrraedd yr Ymatebwyr Cyntaf yn barhaus ar Facebook am y costau lleiaf posibl. Pwysleisiodd NP fod Facebook yn allweddol i lwyddiant o ran codi ymwybyddiaeth ac mae ar y blaen i Twitter. Rhaid cyfuno adnoddau gyda'r nodau i gyd yr un fath ar gyfer pob sefydliad a chorff anllywodraethol, o fewn un grŵp Facebook.

Dywedodd MM fod problem o ddiffyg adnoddau ac mae angen cydlynu'r gwaith yn fwy gofalus. Dywedodd MC ei bod yn bwysig ymgysylltu â goroeswyr a'u hyfforddi i helpu i godi ymwybyddiaeth.

Dywedodd SC fod y cynlluniau peilot a oedd yn cael eu rhedeg yn Lloegr, un yng ngorllewin Swydd Efrog ac arall yn ne orllewin Lloegr, wedi cael gwared â Chyrff Anllywodraethol fel ymatebwyr cyntaf, gan greu arweinwyr diogelu rhag caethwasiaeth yn eu lle. Nid oedd hyn yn gweithio oherwydd mai dim ond personél y Swyddfa Gartref, yr heddlu a'r awdurdodau lleol oedd ynghlwm wrth hyn, heb unrhyw ymgysylltiad gan gyrff anllywodraethol. Yng Nghymru, y cyrff anllywodraethol sy'n ymatebwyr cyntaf yw BAWSO, Llwybrau Newydd a Barnardos yn achos plant.

Dywedodd SC y gall gymryd wythnosau neu fisoedd i rywun fynd i'r NRM, i greu ymddiriedaeth. Nid yw'r cyfnod gorffwys ac adfer o 45 diwrnod yn gweithio a dylid rhoi pwysau ar y Swyddfa'r Gartref i gynyddu hyn.

DRAFT

Dywedodd SC fod adran 54 yn ymdrin â thryloywder mewn cadwyni cyflenwi ar gyfer sefydliadau masnachol sy'n cynhyrchu dros £36m. Dywedodd SC fod angen gwneud rhagor gyda chwmnïau sy'n dod o dan y trosiant hwn ynghyd â'r sector cyhoeddus i sicrhau caffael moesegol hefyd.

Yn ôl JW, yn y rhan fwyaf o achosion, yr unig gwmnïau sy'n dod o dan y categori o gael trosiant aml-filiwn fyddai'r archfarchnadoedd rhyngwladol ac na fyddent yn cyffwrdd â'r rhan fwyaf o fusnesau, a phobl sy'n cael eu hecsbloetio.

Dywedodd KA ei bod wedi chwilio am 30 uchaf Cymru ar Google. Mae'r rhan fwyaf o'r cwmnïau hynny yn y sector adeiladu, yn gwmnïau ceir, AEG, ac ati. Dywedodd KA fod gwaith wedi'i wneud gyda Peter's Pies yng Nghaerffili oherwydd eu bod yn cyflogi pobl yn y gymuned leol. Mae'n ymwneud ag edrych ar y busnesau sydd â throsiant o £36m ond hefyd fusnesau lleol eraill.

Dywedodd SC y gallai problemau godi gyda thendro pan fydd is-gontractio yn digwydd a'r risg, er enghraifft, o ddillad yn cael eu gwneud mewn slafdai. Rhoddodd SC yr enghraifft o Cosy Beds a oedd yn gwneud gwelyau ar gyfer Next a John Lewis. Cyfeiriodd SC hefyd at sgandal cig ceffyl Tesco.

Dywedodd KA fod angen hyrwyddo model hyfforddi Cymru ymhellach ar draws y DU a bod gwaith yn cael ei wneud gyda phrifysgolion eraill yn y DU. Dywedodd KA y gallai fod problemau hefyd yn y diwydiant gwestai a dylid gwneud rhagor o waith ac ymchwil i hyn.

Dywedodd RA fod gwaith yn cael ei wneud gydag Operation Make Safe trwy wythnos ddiogelu i godi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau pobl sy'n cadw gwestai a chwmnïau tacsis.

Dywedodd NP os oes pryder nad yw ymatebwyr cyntaf yn gwybod beth yw eu dyletswyddau, ychydig iawn o obaith sydd bod pobl leol ar lawr gwlad yn adnabod arwyddion caethwasiaeth.

Dywedodd SB fod BBC Wales wedi bod mewn cysylltiad â nifer o gyrff anllywodraethol ynglŷn â gwneud rhaglen ddogfen am gaethwasiaeth fodern ac y byddai hyn yn gyfle i dynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru ac i amlinellu'r arwyddion ar gyfer adnabod caethwasiaeth.

Dywedodd MM fod angen gwneud rhagor i gydlynu gwaith yn ymwneud â'r agenda caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Os nad oes cydlyniant, mae adnoddau'n cael eu gwastraffu.

Dywedodd SC y byddai'n siarad â'i bennaeth cyfathrebu ac y byddai'n edrych ar ddiogelu a gweithio gydag eraill ar hyn. Mae gan SC bellach gefnogaeth benodol gan SK i helpu gyda chyfathrebu.

Dywedodd JW y dylai'r grŵp ddod o hyd i dri phwynt gweithredu i symud ymlaen. Dywedodd JW y bydd grwpiau'n gofyn iddi dro ar ôl tro i siarad am fasnachu, ac yn fuan byddai'n siarad mewn digwyddiad ynglŷn â'r argyfwng ffoaduriaid a'r cysylltiad â masnachu mewn pobl. Dywedodd JW y byddai'n parhau i godi mater y plant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain.

DRAFT

Dywedodd JW mai un o'r materion allweddol yw'r cyfnod ar ôl 45 diwrnod.

Dywedodd DM, os edrychir ar y mater o ôl-ofal, dylai'r pwyslais fod ar y funud gyntaf o achub. Mae diffygion yn y system ar hyn o bryd. Mae BAWSO yn wych o ran cefnogi dioddefwyr yn ystod eu hamser cythryblus ond mae angen i'r dioddefwyr gymryd rhan yn yr NRM. Bydd lefel y gwasanaeth yn dibynnu ar a ydynt yn ymgysylltu â'r system NRM. Dywedodd DM mai prin y mae dioddefwyr yn barod i ddweud eu stori ar y funud gyntaf ac felly mae ansicrwydd ynghylch a fyddant yn cael eu derbyn ai peidio, ac a fyddant yn cael eu cefnogi ai peidio.

Dywedodd NE, KA ac RA fod angen edrych ar ofal cyn ac ar ôl NRM, ac ymagwedd gyson o'r dechrau i'r diwedd, ymlaen i'r cyfnod adfer.

Dywedodd DM nad yw'r NRM yn mynd i'r afael â lefel y risg a lefel yr ymateb diogelu i'r dioddefwr. Ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref a thrais ar sail anrhydedd mae dulliau gwyddonol i asesu lefel y risg i bobl ac er mwyn darparu cymorth yn ôl lefel y risg honno. Asesir risg ar hyn o bryd yn ôl barn broffesiynol. Dywedodd DM y dylai fod yn bosibl cymryd agwedd fwy gwyddonol tuag at yr asesiad hwn.

Mynegodd HH bryderon na ddylid gwanhau'r broses ddiogelu gyda phroses annibynnol, a gallai hyn fod yn gyfle i gael asesiad mwy integredig lle gwelir gwendidau ar draws gwahanol feysydd. Mae risg o gael categori penodol ar gyfer masnachu mewn pobl lle mae gorgyffwrdd ag ardaloedd eraill. Er enghraifft, ystyrir bod y merched o Gaerdydd a aeth i Syria yn dod o dan yr agenda atal eithafiaeth, ond gellid ei ystyried hefyd yn achos o fasnachu neu feithrin perthynas amhriodol ar-lein.

Dywedodd SC fod gwerthusiad yn parhau ar gyfer ICTA a'r cynllun peilot gan Brifysgol Bedford.

Dywedodd DM fod ICTAs yn wych. Gallai'r ICTAs gael eu hymgorffori yn y canolfannau diogelu aml-asiantaeth.

Ailadroddodd NP yr angen i gyrff anllywodraethol ac adrannau'r llywodraeth gydlynu'n well ar gyfathrebu. Dywedodd SC y gellid sefydlu is-grŵp i drafod y mater o gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth, a gellid galw cyfarfod i drafod y mater hwn ymhellach.

Dywedodd SC y byddai'r is-grŵp yn edrych ar strategaethau cyfathrebu a byddai'n gwahodd pobl i ddod draw, gyda thudalen Facebook newydd wedi'i sefydlu, gyda rolau, hawliau ac ati wedi eu cadarnhau yn y cyfarfod hwnnw.

Dywedodd HH fod llawer o ddogfennau cyfeirio y mae angen eu cynnal a'u cadw ar-lein.

Dywedodd KA y dylid sefydlu gwefan a fyddai'n caniatáu i ddogfennau a chynnwys gael eu cynnal, er mwyn i rywun fod yn berchen arni. Dywedodd KA fod gwefan y Comisiynwyr Atal Caethwasiaeth yn gyflym.

Cyfeiriodd NP at yr adroddiad Masnachu mewn Pobl gan JW yn 2009 a oedd yn cyfeirio at yr angen am ganolbwynt ar ffurf gwefan a fyddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd, rhanddeiliaid, ayb am y datblygiadau diweddaraf ym maes

masnachu mewn pobl a’r gwaith sy’n cael ei wneud. Dywedodd NP fod gwefan y Comisiynwyr Atal Caethwasiaeth yn enghraifft berffaith o'r hyn y dylid ei greu yng Nghymru.

Dywedodd SC fod gwaith a chyngor ar gamau sy'n ymwneud â masnachu mewn pobl yng Nghymru yn cael ei wneud yn rhannol ar wefan Byw Heb Ofn (livefearfree.gov.wales).

Dywedodd JW mai ei wefan Masnachu mewn Pobl ei hun oedd ar y brig yng Nghymru o ran termau chwilio allweddol. Dywedodd NP y byddai'n rhaid i'r parth human-trafficking.co.uk ddod i ben oherwydd yr ymrwymiad sydd ei angen i gynnal y safle.